# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog*

***12 Mawrth 2008***

***Adroddiad yr Uned Forwrol***

**1 – *__Ffioedd a Thaliadau__***

***1.1*** Mae'r ffïoedd a'r taliadau sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol nesaf, 008/09, wedi'u hanfon at Swyddogion Statudol ac Arweinydd Portffolio Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes i'w cymeradwyo.

***1.2*** Ynghlwm mae copi o'r ffïoedd a'r taliadau sy'n ymwneud â harbwr Porthmadog a bydd Aelodau'n nodi yr argymhellir bod y taliadau ar gyfer trigolion parhaol Gwynedd yn codi 3% tra bo'r taliadau ar gyfer y rhai hynny sy'n byw y tu allan i Wynedd yn codi 4%.

***1.3*** Rhagwelir y bydd y chwyddiant ar gyfer harbwrs Gwynedd yn 2008/09 yn 3.97%. Mae gofyn, felly, gael cynnydd sy'n cyfateb i £11,270 yn ein targed incwm ar gyfer 2008/09. Dichon y bydd aelodau'n gwybod bod y targed incwm ym Mhorthmadog yn cyrraedd y targed. Bydd raid cymryd camau priodol er mwyn sicrhau bod y gwariant cyffredinol a'r targedau incwm yn cyrraedd eu targedau yn 2008/09.

***1.4*** Mae'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â lansio a chofrestru cychod pŵer a chychod dŵr personol wedi codi 7% ar gyfartaledd Er nad oes rhai ffioedd wedi newid, mae yna gynnydd bychan mewn costau cofrestru trwy'r post a hefyd mae'r ffi am ganiatâd i lansio hefyd yn codi. Ynghlwm hefyd mae ffioedd a thaliadau i gael mynd ar draeth Morfa Bychan a bydd aelodau'n nodi y bydd y ffi mynediad o £3.00 yn berthnasol trwy gydol tymor yr haf

***1.5*** £62,040 yw'r cynnydd cyffredinol yn y targed incwm ar gyfer yr Uned Forwrol yn 2008/09, yn codi targed incwm cyffredinol yr Uned Forwrol i £2,070,880.

**2 – *__Trwydded i Hwylio Fferi__***

***2.1*** Er bod dyfroedd Harbwr Porthmadog wedi'u cynnwys yng Nghofrestr Dyfroedd sydd wedi'u Categoreiddio, nid yw'r Uned Forwrol wedi cael cais yng nghyswllt 'Trwydded Perchenogion' ar gyfer cychod sy'n hwylio y tu mewn i Ddyfroedd sydd wedi'u Categoreiddio harbwr Porthmadog (dyfroedd Categori C) ers sawl blwyddyn. Yn rhinwedd Deddf Diwygiadau y Deddfau Iechyd Cyhoeddus, gall y drwydded ddechrau o saith niwrnod cyn y Pasg hyd at ddiwedd mis Hydref. Dylid nodi ar y drwydded y mannau mynd ar y cwch ac oddi arno ac ni chaniateir i'r cwch gludo dim mwy na deuddeg unigolyn (diffinnir unigolyn fel unrhyw un dros flwydd oed).

***2.2*** Yn 2008 mae'r Pasg yn eithaf cynnar ac, yn dechnegol, mae modd rhyddhau'r drwydded i hwylio fferi yn y Dyfroedd sydd wedi'u Categoreiddio fel ei bod yn dechrau o 14 Mawrth 2008 ymlaen, ar yr amod bod y cwch wedi'i archwilio ar y lan ac ar y dŵr gan Syrfëwr Cychod Hwylio Ardystiedig. Yn ôl diffiniad o 'Syrfëwr Cychod Hwylio' rhaid iddo fod yn aelod o'r YDSA.

***2.3*** Er nad oes yr un drwydded wedi'i rhyddhau ym Mhorthmadog, mae gofyn i'r Uned Forwrol sicrhau bod ystyriaeth ddyledus yn cael ei rhoi i geisiadau oddi wrth ddarpar weithredwyr. Er mwyn sicrhau parhad a chysondeb y tu mewn i'r holl Ddyfroedd sydd wedi'u categoreiddio yng Ngwynedd, mae gofyn i aelodau wneud sylw ar y gofynion a restrir yn 2.4 i 2.7. Nid yw'r rhestr yn hir nac yn gyflawn. Ynghlwm mae ffurflenni ychwanegol i archwilio cychod a'r rhestr offer ar gyfer perchenogion. Bydd hyn yn sicrhau bod gofynion tebyg yn berthnasol ar gyfer yr holl Ddyfroedd sydd wedi'u Categoreiddio yng Ngwynedd.

***2.4*** Mae'n hanfodol bod offer a argymhellir fel offer sylfaenol gan y Cyngor ar gael ar y cwch bob amser. Daw'r rhestr a'r argymhellion o Gôd Ymarfer Cychod Bychain.

***2.5*** Er mwyn bod yn Feistr cwch sydd wedi cael caniatâd i gludo teithwyr yn y Dyfroedd sydd wedi'u Categoreiddio, mae gofyn i Feistr y cwch fod wedi'i drwyddedu gan y Cyngor. Rhyddheir Trwyddedau o'r fath yn rhinwedd Deddf Diwygiadau y Deddfau Iechyd Cyhoeddus ac fe'u rhyddheir os oes gan yr ymgeisydd gymwysterau neu / a phrofiad addas.

***2.6*** Cyn i'r ymgeisydd gael Trwydded, mae gofyn iddo wneud cais i'r Awdurdod sy'n rhyddhau trwyddedau am drwydded o'r fath a bydd yr Harbwrfeistr neu swyddog arall o'r Uned Forwrol sydd â chymwysterau a phrofiad addas yn cynnal prawf byr ar y dŵr. Ni fydd y drwydded yn cael ei rhyddhau oni bydd yr ymgeisydd wedi pasio'r prawf byr hwn.

***2.7*** Nodir yn Nhrwydded y Perchennog a Thrwydded y Cychwr na fydd y cwch yn cael ei ddefnyddio i gludo teithwyr fel gwobr onid yw yn ystod golau dydd ac mewn tywydd ffafriol. Bydd raid wrth gais ar wahân ac asesiad o'r Cychwr a wnaed ar y dŵr er mwyn hwylio yn y tywyllwch.

## ***3 -*** ***<u>Cyllidebau</u>***

***3.1*** Ynghlwm mae sefyllfa ariannol harbwr Porthmadog ar 31 Ionawr 2008. Bydd aelodau'n nodi mai £75,020 yw'r targed incwm sy'n ymwneud â harbwr Porthmadog ar gyfer 2007/08 a bod cyfanswm yr incwm a wnaed hyd at ddiwedd mis Ionawr 2008 wedi cyrraedd £76,159. Ni ragwelir bod modd creu swm sylweddol o incwm ym mis Chwefror a mis Mawrth ac, o'r herwydd, rhagwelir y bydd y targed incwm fymryn yn uwch na'r targed.

**3.2** Dichon fod aelodau'n gwybod fod y gwariant hyd yn hyn wedi mynd yn uwch na'r gyllideb ar nifer o benawdau ac mae hyn yn peri pryder gan fod disgwyl rhagor o wariant ym mis Chwefror a Mawrth. Ynghlwm hefyd mae'r adroddiad ariannol hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2007. Sefydlwyd pennawd y gyllideb, NT 53 12 01 (£11,740) er mwyn cwblhau gwelliannau bychain eraill yn yr harbwr megis yr estyniad i'r llithrfa a'r cyfleuster diesel sydd newydd ei gwblhau. Cafodd y gyllideb ei chynnwys yng nghyllideb yr harbwr ac wedi'i drosglwyddo o gyllideb gyffredinol yn yr Uned Forwrol y mae modd ei ddefnyddio mewn harbwrs eraill ac ar draethau.

**3.3** Bydd 2008/09 yn flwyddyn heriol i'r Uned Forwrol ac yn enwedig felly i harbwr Porthmadog, Pwllheli, Aberdyfi ac Abermaw. Pwysleisir bod raid goresgyn y gorwariant a'r diffyg mewn incwm mewn rhai harbwrs, yn enwedig felly o gofio'r hinsawdd ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod.

***4 Mordwyo***

***4.1*** Mae'r rhan fwyaf o Gymhorthion Mordwyo sy'n arwain i harbwr Porthmadog wedi aros yn eu lle yn ystod rhan gyntaf y gaeaf. Nid yw bwi Starbord rhif 5 yn ei le ar hyn o bryd gan iddo ddod o'i le ym mis Rhagfyr. Cafwyd hyd i'r bwi ym Mhwynt Harlech ac mae wedi'i gynnal ar gyfer ei roi yn ôl yn ei le cyn gynted â phosib.

***4.2*** Mae bwi y sianel fordwyo wedi'i gynnal a bydd yn cael ei roi yn ei ôl yn y Gwanwyn. Mae llusern newydd wedi'i gosod ar gost o £1,000. Byddir yn dod â'r marcwyr dros dro sydd yno dros y gaeaf i'r lan ar ôl y Pasg a bydd bwiau mordwyo yr haf yn cael eu gosod. Roedd yr holl lusernau mordwyo yn eu lle dros y gaeaf. Arbrawf yw hyn a bydd y sefyllfa'n cael ei adolygu ym mis Medi 2008.

***4.3*** Ar gais yr RNLI ac aelodau'r Pwyllgor hwn, mae dau farciwr arwain wedi'u roi yn y sianel sy'n arwain i Bortmeirion. Mae dau farciwr arall wedi'u paratoi ac yn barod i gael eu defnyddio. Mae'r sianel wedi bod yn newid yn gyson dros y gaeaf a bu'n anodd cynnal y ddyfrffordd 'fordwyol'.

***4.4*** Mae holl angorfeydd yr harbwr wedi'u harchwilio a'u cynnal er mwyn sicrhau bod modd i gychod fod yn ddiogel yn yr harbwr yn ystod y tymor hwylio sydd i ddod. Bydd adroddiad manwl ar gyflwr yr angorfeydd ac ar y gwaith a wnaed ar bob angorfa ar gael oddi wrth yr harbwrfeistr yn ystod y cyfarfod.

£2,800 yw cyfanswm cost y gefynnau a'r tsiaen angori fydd yn cael eu defnyddio i gynnal yr angorfeydd a'r Cymhorthion mordwyo yn harbwr Porthmadog yn ystod gwanwyn 2008 .

**5 -** ***Staff***

**5.1** O gofio bod nifer o swyddogion o'r Uned Forwrol ar secondiad mewn meysydd eraill o'r gwasanaeth, mae'n bosib y bydd swydd yr harbwrfeistr ym Mhorthmadog yn parhau dros yr haf. Bydd aelodau'n cael rhagor o fanylion am y sefyllfa ac eglurhad ohoni yn y cyfarfod.

***6 - Cwch Rheoli'r Harbwr***

**6.1** Mae'r Cwch Rheoli presennol wedi bod yn gwasanaethu Harbwr Porthmadog er 1998 ac wedi bod o fudd i sicrhau bod gweithgareddau yn yr aber dan reolaeth resymol. Yn ddiweddar, prynwyd y model newydd 'Powercat' a dylai fod ar gael yn yr harbwr cyn y gŵyl banc gyntaf ym mis Mai. Bydd yn costio oddeutu £21,000 i sicrhau y bydd y cwch newydd yn barod i hwylio.

***7 - Materion Cyffredinol***

**7.1** Mae'r rac cychod gweini a osodwyd yn gynnar yn 2007 wedi bod o fudd i hwylwyr. Bydd y ffens ddiogelwch yn cael ei hymestyn yn y gwanwyn er mwyn sicrhau bod y man wedi'i warchod yn ddigonol. Oddeutu £1,800 fydd cost gosod estyniad y ffens ddiogelwch.

**7.2** Ym mis Ionawr 2008, cafwyd gwybod y daeth nifer fawr o gyffuriau i'r lan yn Nhywyn. Cafwyd ar ddeall bod y parsel a olchwyd i'r lan yn cynnwys heroin a bod ei werth ar y stryd oddeutu £1.6 miliwn. Cynghorwyd y cyhoedd i fod yn wyliadwrus wrth gerdded ar y traethau ac i roi gwybod i'r Heddlu'n syth am unrhyw beth amheus.

**7.3** Yn ystod y gaeaf, rhoddwyd gwybod am nifer o ddigwyddiadau lle gwelwyd cerbydau modur, sef beiciau cwad yn y twyni tywod. Mae'r twyni yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac mae'n drosedd creu difrod i safle o'r fath.

Mae staff o'r Uned Forwrol wedi bod yn goruchwylio'r traeth ar nifer o benwythnosau er mwyn rheoli'r sefyllfa'n well. Bydd yr Uned Forwrol yn cysylltu â Chyngor Cefn Gwlad Cymru er mwyn gofyn am ragor o gymorth i reoli'r twyni dros benwythnosau, yn enwedig felly dros fisoedd y gaeaf. Er mwyn rheoli'r traeth yn well bydd aelod ychwanegol o staff yn cael ei gyflogi o 19 Mawrth ymlaen am dymor ar y tro. Bydd dau aelod 'achlysurol' o staff hefyd ar gael yn ôl y gofyn.

**7.4** Ar 15 Chwefror, dywedodd aelod o'r cyhoedd y gwelwyd crwban y môr ar y traeth ym Morfa Bychan. Edrychodd y Swyddog Morwrol (Traethau) i mewn i hyn a chafwyd mai crwban pendew oedd yr amffibiad. Fe'i casglwyd gan y Swyddog Morol sy'n gyfrifol am anifeiliaid a olchir i fyny ar y traeth ac aed ag o i Sŵ Llundain am bost mortem.

**7.5** Yn ddiweddar mae'r Uned Forwrol wedi derbyn cais oddi wrth Welsh Highland Railway Construction Ltd yn gofyn am ganiatâd i'r cwmni godi troedffordd grog ar hyd y ffordd bresennol. Rhaid cael caniatâd ar gyfer yr estyniad gan y bydd y droedffordd wedi'i chrogi uwch law'r dŵr sydd oddi fewn i awdurdod harbwr Porthmadog.

O'r bwriad a gyflwynwyd gan y cwmni, ni ragwelir y bydd y prosiect yn cael effaith andwyol ar waith rheoli'r harbwr ac ni fydd yn rhwystr nac yn beryglus i fordwyo. Bydd copi llawn o'r lluniadau ar gael i'w harchwilio yn y cyfarfod.

## *8 - **<u>Is-ddeddfau'r Harbwr</u>***

***8.1*** Er bod fersiwn ddrafft is-ddeddfau'r harbwr wedi'u cymeradwyo gan Bwyllgor yr Harbwr, nid yw'r is-ddeddfau wedi'u cadarnhau gan Lywodraeth y Cynulliad. Cawsom wybod fod Uned Gyfreithiol Cyngor Gwynedd wrthi'n trafod y mater hwn gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a'r gobaith yw y cânt eu cadarnhau yn y dyfodol agos iawn.